PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 51 Rhagfyr 21, 2023 50c.

## Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwys â'r Parchg Hywel Wyn Richards, Catrin a Lowri a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Dilys. Priod, mam, mam-gu a chwaer hoffus.

# Pawb a'i Nadolig

## Naw Llith a Charol Pontyberem



Ar fore Sul 10 Rhagfyr cynhaliwyd oedfa naw llith a charol yn eglwys Caersalem Pontyberem o dan ofal aelodau'r eglwys. Cafwyd cyflwyniadau arbennig ar lafar ac ar gan a wnaeth ein hatgoffa am wir ystyr yr ŵyl.

## Y Priordy, Caerfyrddin



*Criw Pobl Ifanc y Priordy a'u hoedfa dan olau cannwyll*



*Plant y Priordy yn adrodd Stori'r Geni*

*mwy ar y dudalen gefn*

## Cyfarchion yr Ŵyl

Carem ni, staff Tŷ John Penri a Swyddogion yr Undeb, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi ddarllenwyr *Y Tyst* ac aelodau'r eglwysi y cawn ni'r fraint o'u gwasanaethu yn ystod y flwyddyn. Llawer o ddiolch i chi am eich cefnogaeth hael a'ch cydweithrediad cyson.

Bydd y swyddfa ynghau o brynhawn Iau, 21 Rhagfyr tan ddydd Mawrth, 2 Ionawr 2024.

### Diolch

Gyda rhifyn cyntaf y flwyddyn byddwn yn croesawu'r prif-olygydd yn ôl at ei ddesg wedi cyfnod Sabothol. Rhannodd â ni eisoes, ar dudalennau'r *Tyst* rhywfaint ar ei fynd a'i ddod dros y misoedd diwethaf, ac mae'n siŵr y daw rhagor eto.

Wrth ddymuno'n dda i Alun Tudur wrth iddo ailgydio'n ei waith mae'n llawenydd datgan ein diolch a'n gwerthfawrogiad ni i gyd i'r cwmni fu mor barod i eistedd yn sedd y golygydd gan sicrhau bod copi glân, diddorol a chwaethus o'r *Tyst* yn dod atom bob wythnos. Cyfeirio wnaf yma at y ddau is-olygydd, Iwan Llewelyn Jones ac Alun Lenny. Y mae Alun yn hen gyfarwydd ag ysgwyddo gwaith golygyddol llawn yn ei dro ac Iwan sy'n arfer paratoi colofn ac erthygl, wedi cydio yn y gwaith o'r newydd yn ddigon bodlon a diddig. Gwelwyd nad oedd Owain Llŷr Evans, fu am gyfnod yn olygydd y *Cristion*, wedi anghofio nac esgeuluso'i ddawn gyda geiriau. Yna, camodd Gwennan Evans, merch ifanc o Hermon, Cynwyl Elfed i'r adwy, â hynny ar anogaeth Elinor Wyn Reynolds, fu'n fentor mor hael ei chyngor a'i chyfarwyddyd iddi wrth hebrwng ei rhifyn hithau drwy'r wasg. Yn wir, cydiodd Elinor yn y gwaith golygyddol llawn hefyd a chafodd tîm *Y Tyst* gydlynydd da a diogel ac amyneddgar ynddi.

# MEWN CÔR

Yr un neges eto eleni – dathlu a chofio babi yn dod i'r byd, ond babi sbesial iawn. Mae pob babi, wrth gwrs, yn sbesial, ond y sbesialeiddiwch sydd tu draw i bawb a phopeth arall sy gen i mewn golwg – yn Iesu Grist fe ddaeth Duw mewn cnawd i'r byd. Hynny yw, dewisodd Duw ymweld â ni fel byd a dod yn gnawd, ac mae yna ddigonedd o adnodau sy'n cyfleu hynny, 'A daeth y Gair yn gnawd ...' (Ioan 1: 14), a'r adnodau y byddai'n hoff iawn ohonyn nhw ydi'r rhain gan Paul: 'Hwn yw delw'r Duw anweledig, cyntaf-anedig yr holl greadigaeth; oherwydd ynddo ef y crëwyd pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear, pethau gweledig a phethau anweledig, gorseddau, arglwyddiaethau, tywysogaethau ac awdurdodau. Trwyddo ef ac er ei fwyn ef y mae popeth wedi ei greu. Y mae ef yn bod cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll.' (Colosiaid 1: 15–17) 'Duw yn ddyn, fy enaid gwêl Iesu ein Emaniwel' meddai'r garol.

Ganrif yn ôl (1923) ganwyd Robin Williams – gweinidog, pregethwr, darlledwr, dynwaredwr, llenor a cherddor. Bu farw ugain mlynedd yn ôl union i eleni yn Rhagfyr 2003, ac fe'i cefais yn gymydog gyda'r gorau a'r mwyaf hynaws. Gŵr gorlawn o ddoniau. Meddai Robin yn ei gyfrol *Colofn Bapur* wrth ddyfynnu carol Eos Iâl, 'Ar gyfer heddiw'r bore ...' a'r llinellau, 'Yr Alffa a'r Omega ar lin Mair, mewn côr ym Methlem Jwda ar lin Mair' mae'n adrodd stori, a dyma hi:

> Pan oeddem yn byw yn ardal Uwchaled ac Ederynion, fe glywid y gair 'côr' yn feunyddiol ar dafod y fro. Bröydd amaethyddol yw'r rheini, a'r 'côr' yno yw'r enw gan yr ardalwyr am feudy, ac yn y côr hwnnw y byddid yn godro'r gwartheg.
>
> Yn y cyswllt hwnnw y daw Lewis Jones, Tyncelyn, i'r stori. Gwladwr o Gymro, uniaith yn fwy na heb, oedd Lewis Jones, gŵr diwylliedig, cwbl ddiymhongar, ac mor unplyg â phlentyn. Un noson laith, llithrodd Lewis Jones ar lawr y beudy, a thorri'i glun. Bu'n rhaid mynd ag ef fel ag yr oedd ar frys i ysbyty Gobowen. Drannoeth, brysiais draw i'w weld, ac wrth gael sgwrs â'r meddyg o Sais a fu'n ei ymgeleddu y noson cynt, dywedodd ei fod mewn cryn dipyn o drafferth yn deal beth yn union oedd wedi digwydd i'r hen frawd, am mai'r unig eglurhad a gawsai gan Lewis Jones oedd 'I fell in the côr.' A chwestiwn y meddyg i mi yn ei swyddfa oedd: 'What does he mean by côr?'
>
> Mae'r ateb yn y garol 'Ar gyfer heddiw'r bore', sy'n dweud i'r Baban gael ei eni 'mewn côr ym Methlem Jwda', sef llety'r anifail, beudy neu stabl. Ac felly y dymunodd y Nefoedd ei 'Nadolig Llawen' cyntaf i fyd fel hwn, heb na theledu na thinsel. Mewn symlrwydd oedd mor fendigaid briddlyd â beudy.

Do, daeth y Gair yn gnawd i fyd felly – i ac at y syml a'r gwan. Dyna resyn na fyddem fel byd, yn arbennig eleni, yn cofio hynny. Mi rof y gair olaf i Williams Pantycelyn: 'yr Anfeidrol ddwyfol Fod yn gwisgo natur dyn.'

Bendith arnoch, bawb, dros yr ŵyl.

**Iwan Llewelyn** (gol.)

## *Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!*

Liw nos y sleifiaist drwy ddrws cefn y byd
yn westai diwahoddiad
o groth y wyryf
a lusgasai ei beichiogrwydd tua thref
ar orchymyn Cesar.

Ffoadur fuost,
crwydryn â'i fagad o ddilynwyr hanner-pan
ar drugaredd y dorf sigledig,
ac ildiaist heb amddiffyniad
i ddedfryd eithaf y gyfraith
yn aberth amserol er mwyn cadw'r drefn.

Rhy lawn oedd fy nghalon innau
pan glywais di gyntaf
liw dyfnder nos
yn aflonyddu rywle yn y cefn,
a'm cwmni innau
yn unfryd eu barn
â democratiaeth Peilat.

Ond â'th ddyfal guro tyner
drylliaist o'r diwedd ffenestri'n chwilfriw mân,
a rhwygodd y gwynt y llenni trymion
ar foment gwawr,
fel anadliad cyntaf Baban
yn nychryn genedigaeth.

**Sion Aled**



## 'Man, if you don't know, I could never tell you.'

Beth yw Jazz? 'Man, if you don't know, I could never tell you,' oedd ateb Satchmo (Louis Armstrong). Mae Jazz, canu Gospel a'r Blues yn frodyr a chwiorydd i'w gilydd, yn blant i ganu'r caethweision. Gwarth ac ing caethwasiaeth esgorodd ar ganu Jazz. Er eu hamddifadu o'u rhyddid a'u teuluoedd, eu gobaith, eu hiaith a'u diwylliant, nid oedd modd dwyn y gân oddi wrthynt. Troesant eu hiraeth a'u poen, eu hymdrech i gadw'n fyw yn gân. Gyda threigl y blynyddoedd daeth cerddoriaeth y caethweision a'u hetifeddion yn falm enaid i etifeddion y rheini fu'n hybu caethwasiaeth.



### Cynghanedd soniarus

Mae Jazz yn treiddio i ddyfnder enaid; mae'n gerddoriaeth sydd yn ein cysylltu â gwraidd ein dolur a ffynhonnell ein cysur. I fod yn gerddor Jazz rhaid ymarfer. Rhaid hefyd dysgu canu'n ddifyfyr; nid dim ond ar eich pen eich hun ond hefyd sut mae cynganeddu'n gywrain a thelynegu'n soniarus gydag eraill. Nid hawdd mo hyn! Anodd yw camu o fyd y cyfarwydd i fyd y posibiliadau di-ben-draw; anodd mentro canu y tu hwnt i'r hyn a wyddoch. 'I've always told the musicians in my band to play what they know and then play above that. Because then anything can happen, and that's where great art and music happen.'

*parhad ar dudalen 6*

Yr Adran
Gydenwadol

RHAGFYR 21 2023 RHIF 147

# Gweddïo dros heddwch y Nadolig hwn – neges ar y cyd gan arweinwyr Cristnogol Cymru



Mae arweinwyr Cristnogol, yn cynrychioli eglwysi a chapeli ar draws Cymru, yn ymuno i wahodd pobl i weddïo dros heddwch y Nadolig hwn.

Mae Archesgob Anglicanaidd Cymru, Andrew John, Archesgob Catholig Caerdydd ac Esgob Mynyw, Mark O'Toole, a Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, Simon Walkling, yn cyhoeddi neges ar y cyd sy'n cydnabod y tensiynau a'r trychinebau yn y byd ac yn gwahodd pobl i'r eglwys i fyfyrio a gweddïo dros heddwch.

Mae'r newyddion wedi bod yn llawn o'r trychineb ofnadwy sy'n datblygu yn Gaza ar ôl y cyrch terfysgol arswydus ar Israel. Lladdwyd miloedd o blant mewn rhyfel nad oedd o'u dewis. Mae'n sefyllfa wahanol iawn i'r hysbysebion Nadolig yn ein gwlad ni, a'r pwysau sydd arnom i fod yn llawen. Gellir deall pam y mae arweinwyr yr eglwys yn Jerwsalem wedi gwahodd y Cristnogion yno i hepgor unrhyw weithgareddau Nadoligaidd diangen, a sefyll yn gadarn gyda'r rhai sy'n wynebu cystudd. Mae'n ymgais i sefyll o blaid y rhai sy'n parhau i ddioddef, yn union fel y gwnaeth Iesu trwy gael ei eni yn faban ym Methlehem ddwy fil o flynyddoedd yn ôl.

Ganwyd Iesu mewn gwlad a oedd wedi ei meddiannu gan y Rhufeiniaid. Ni chafodd ei eni gartref oherwydd bod cyfrifiad yn cael ei gynnal. Roedd tensiynau teuluol am fod Mair yn feichiog a rhoddwyd Iesu i orwedd mewn preseb am fod y llety yn llawn. Lladdodd Herod y bechgyn ym Methlehem i gael gwared ar y bygythiad i'w rym. Mae'r pethau hyn i gyd yn rhan o'r Nadolig, ynghyd â'n llawenydd am gariad Duw a'r traddodiadau sy'n ein helpu i ddathlu.


Y Nadolig hwn, efallai y byddwn yn ymwybodol o densiynau mewn teuluoedd, a'r anawsterau o gael dau ben llinyn ynghyd. Eleni rydyn ni'n cofio'r rhyfeloedd yn y wlad lle ganwyd Iesu, yn Wcráin ac mewn rhannau eraill o'r byd. Rydyn ni'n cofio hefyd ein bod eleni wedi dathlu canmlwyddiant Apêl Heddwch Menywod Cymru, i gofio am y ddeiseb a gyflwynwyd ganddynt i America ynghylch ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd i hyrwyddo 'Cyfraith nid Rhyfel'. Llofnodwyd y neges gan tua 60% o fenywod Cymru, ar ôl teithio o gartref i gartref ac o aelwyd i aelwyd, a dangos beth mae pobl gyffredin yn gallu ei gyflawni trwy gydweithio â'i gilydd.

Mae angen heddwch yn ein byd. Hwyrach ein bod am ddianc rhag tensiwn ein teuluoedd. Efallai y carem gael pum munud o lonydd i ni'n hunain wrth baratoi at y Nadolig. Beth am ymweld ag eglwys i gael lle i dawelu a myfyrio, a rhoi amser i weddïo dros heddwch y Nadolig hwn? Rydyn ni'n gweddïo am lawenydd a gobaith i ni i gyd.





Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru,
Simon Walkling





Archesgob Cymru ac Esgob Bangor,
Andrew John





Archesgob Caerdydd ac Esgob Mynyw,
Mark O'Toole

# Gweddi ar gyfer Nadolig 2023

## Oddi wrth Cynnal, Y Gwasanaeth Cwnsela ar Gyfer Clerigion, Gweinidogion yr Efengyl, Gweithwyr Cristnogol, a'u Teuluoedd

**Ein Tad,**

Rydyn ni'n byw mewn oes o newid - newid cymdeithasol, newid gwleidyddol, newid hinsawdd, ac mae'n teimlo fel petai'r newidiadau'n digwydd yn fwy cyson, yn gyflymach ac yn fwy eithafol o hyd - y byd yn troi'n gynt nag erioed. Mae'n ymddangos hefyd, weithiau, fod y rhai hynny sy'n abl i reoli'r newidiadau hyn er gwell, er ein budd ni i gyd, yn methu yn eu gorchwyl, dro ar ôl tro. A phan fydd ffydd mewn arweinwyr yn cael ei danseilio mae'r teimlad o fod ar goll, yn ddi-gyfeiriad, yn anniogel, yn cynyddu.

Mae datblygiadau technolegol yn codi cwestiynau cymhleth ac yn gallu codi ofn ar yr un pryd. Pa ddelwedd sy'n real, a pha ddelwedd sy'n ffug? Beth grëwyd gan ddychymyg dynol a beth grëwyd gan ddeallusrwydd artiffisial? Rydyn ni'n byw mewn gobaith fod y dechnoleg ddiweddaraf yn cael ei defnyddio er lles, er budd, er daioni yn hytrach nag er drygioni a thwyll.

Weithiau, mae angen newid, wrth gwrs. Byd diflas iawn fyddai'r un lle mae pethau'n aros yn eu hunfan o hyd. Diolch fod yna rai sy'n gallu dyfeisio, sy'n gallu gwneud defnydd o dechnoleg er gwell a llywio pethe i gyfeiriad positif.

Helpa ni ddysgu i ymateb i sefyllfaoedd newydd - i addasu, i wneud y defnydd gorau o gyfleoedd, i ddysgu sgiliau, i fanteisio ar brofiadau, i aros yn llawn cywreinrwydd - i droi cefn ar ddilyn hen arferion a phatrymau niweidiol 'mond achos eu bod yn gyfforddus, gyfarwydd.

Ond, hefyd, dysga ni i ddarganfod, i ddewis ac i ddal gafael ar yr hyn sy'n dda, sy'n greiddiol, "craig safadwy mewn tymhestloedd"- yr hyn sy'n ddigyfnewid, yn werthfawr ers cenedlaethau.

Ar ddiwedd un fl wyddyn, ac ar ddechrau blwyddyn newydd, helpa ni i adael i hen batrymau niweidiol fynd yn angof, i dorri'n rhydd o ddibyniaeth afi ach, a rho i ni'r nerth a'r doethineb i dderbyn sialensiau a phrofi adau newydd a gwneud y mwyaf o bob cyfl e a ddaw.




cynnal Adferiad

**AM FWY O FANYLION CYSYLLTWCH Â:** wynfordellisowen@adferiad.org | Rhif ffôn: 07796464045

**www.adferiad.org/services/cynnal**

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

### Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd




**Pennod 13**
**Drama'r Nadolig**
**Sul, 24 Rhagfyr**

### Gweddi
Diolch i ti, Roddwr Bywyd, am y rhodd o Waredwr i drigolion byd. Yn ein myfyrdod heddiw diolchwn am bob cyfrwng i adrodd y stori a dathlu rhyfeddod Bethlehem. Yn y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig, cymorth ni i weld Iesu fel canolbwynt ein haddoliad a deall mai'r un yw Crist y crud a Christ y groes. Amen.

### Darlleniad: Mathew 1:18–2:12

### Cyflwyniad
Mae stori'r Nadolig yn gyfarwydd i ganran sylweddol o blant y gwledydd Cristnogol, a hynny am iddi fod yn rhan mor amlwg i'w hadrodd. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif datblygodd yr ymwybyddiaeth o'r hanes a nodir gan Mathew a Luc mewn amrywiol ffyrdd. Nid felly y bu ar hyd y canrifoedd gan mai'r Pasg oedd y brif ŵyl eglwysig. Datblygwyd yr arfer o ddwyn cyfarchion i deulu a chyfeillion ar 25 Rhagfyr, ac estynnwyd hynny gyda dyfodiad y modd o argraffu cardiau. Bu'n ddyddiad i gadw cymanfa ganu mewn rhai ardaloedd ac eisteddfod mewn mannau eraill. Yn ystod yr ugeinfed ganrif yn arbennig, gwelodd masnachwyr eu cyfle i droi gŵyl y goleuni i fod yn ŵyl y gwariant gwirion. Yn ddiddorol, nid oes cyfeiriad yn Efengyl Marc at hanesion Bethlehem, ac nid yw Efengyl Ioan yn eu crybwyll chwaith.

### Myfyrdod
Aeth yr hanes Beiblaidd ar goll ynghanol llu o draddodiadau eraill, ac mewn sawl cyflwyniad Nadolig sylwir bod Iesu ar yr un llwyfan â chymeriadau rhaglenni teledu neu storïau gwerinol o sawl gwlad. Daeth Siôn Corn yn amlycach a rhoddwyd Iesu gyda'i breseb i'r naill ochr. Bu'n ffasiwn gan siopau i drefnu cornel lle byddai'r cymeriad barfog a'i gôt goch yn estyn rhoddion i blant a fu'n aros yn amyneddgar er mwyn gweld ei ryfeddodau.

Fel rhan o'r ymateb i hyn, gwelodd Sally Humble-Jackson, gwraig ganol oed o gefndir Anglicanaidd yng Nghaerdydd, yn dda i gasglu ei ffrindiau ynghyd a cheisio lleoliad i gynnal 'Drama'r Geni'. Cyn cyfnod Covid, bu'n cyflwyno'r ddrama yn y Tabernacl, Caerdydd, ond erbyn heddiw mae'n defnyddio adeiladau'r ddwy eglwys Anglicanaidd yng nghanol y brifddinas, sef Dewi Sant a Sant Ioan y Bedyddiwr. Bu'r cyflwyniad cyntaf yn 2010 a gwahoddwyd ysgolion i drefnu cludiant i'w disgyblion i ddod i weld y ddrama. Oedolion oedd mwyafrif yr actorion, gydag ambell un yn dewis cymryd rhan o'u gwyliau blynyddol i fod yn rhan o'r cast. Roedd y sylwebaeth wedi ei recordio a meim oedd cyfrwng y cyflwyno. Defnyddiwyd sgiliau pypedwyr i ddangos rhan y bugeiliaid, ac roedd yr angel yn ymddangos mewn ffurfiau eraill. Nod y gweithgarwch oedd dweud y stori fel bod plant y ddinas yn cael cyfle i weld y darnau yn dod ynghyd. Nid efengyleiddio oedd y bwriad, a gwelwyd llu o bobl o grefyddau eraill yn dod â'u plant i weld a mwynhau'r ddrama.

Mae sawl ardal arall yng Nghymru yn arbrofi â'r cynllun, gan gynnwys Aberdâr, Pen-y-bont, Caerfyrddin a Chaernarfon. Byddai angen cyfalaf i greu'r set ar bob ardal, yn ogystal â phobl i actio a stiwardio, a digon o gyhoeddusrwydd i sicrhau cynulleidfaoedd. Amcangyfrifir bod dros 32,000 wedi gweld y cyflwyniad dros yr wyth mlynedd gyntaf yng Nghaerdydd, a gwerthfawrogir cydweithrediad nifer dda o eglwysi i sicrhau llwyddiant y fenter. Os ydych am drefnu cynnal digwyddiad tebyg yn eich ardal chi, bydd angen i griw ymroddedig ddod ynghyd a sgwrsio â Sally Humble Jackson. Mae'n bosibl, a byddwch yn helpu cenhedlaeth newydd o blant i ymgyfarwyddo â symlrwydd a rhyfeddod hanes geni Iesu o Nasareth.

### Gweddi
O aed, O aed yr hyfryd wawr ar led,
  goleued ddaear lydan!
    Halelwia! Amen.
(Y Salmydd Cymreig, priodolir i David Charles; *Caneuon Ffydd* 49)

### Cwestiynau i'w hystyried
1. Pam dybiwch chi na wnaeth Marc ac Ioan adrodd yr hanesion sydd yn y ddwy efengyl arall?
2. Pa ganran o blant a phobl ifanc eich bro sy'n gyfarwydd â ffeithiau syml yr hanes?
3. A aeth Iesu ar goll ynghanol y twrcis a'r tinsel, neu a yw teuluoedd heddiw heb sylweddoli mai Iesu'r preseb yw Iesu'r groes a'r bedd gwag?
4. Ai Duw neu doli sydd yng nghrud eich dathliadau chi?
5. Ai person neu rhith yw Duw i ganran sylweddol o'ch cydnabod?

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 24 Rhagfyr am 7yh**
Bydd Nia Roberts yn arwain dathliadau'r Nadolig o Eglwys San Silyn, Wrecsam. Ymhlith y gwesteion mae Cantorion Sirenian a'r unawdwyr Jessica Robinson, Trystan Llŷr Griffiths a Celyn Cartwright. A chawn wrando ar ddarlleniadau o Stori'r Geni a chydganu ein hoff garolau.

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 24 Rhagfyr, am 7:30yb a 16:30yp**
Carolau a darlleniadau i ddathlu'r Nadolig

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 24 Rhagfyr, am 12yp**
Oedfa dan ofal Lois Adams, Caerdydd

**Llun, 25 Rhagfyr, Dydd Nadolig, am 7yb ac 1yp**
Oedfa dan arweiniad Alun Morton Thomas ac aelodau o'i eglwysi ym Môn

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Teyrnged i Richard Huw Edwards aelod yn Ebeneser Rhos-meirch



*Richard a Morfydd ei wraig*

Ar ddechrau mis Tachwedd bu farw Mr Richard Huw Edwards yn 94 oed un o'r aelodau hynaf yn yr eglwys. Cafodd ei fedyddio, derbyniwyd ef yn aelod, priododd a bedyddiwyd ei blant yn y capel hwn, ac i gloi'r cylch, cynhaliwyd ei angladd yma. Sawl un arall allai ddweud eu bod wedi mynychu'r un eglwys drwy gydol eu hoes tybed?

Ond nid mynychu'r capel yn unig a wnaeth. Fe fu'n weithgar hefyd, bu'n athro ysgol Sul, codwyd ef yn ddiacon a bu'n drysorydd yr eglwys am 25 mlynedd. Roedd yn Annibynnwr o argyhoeddiad, mynychai'r Cwrdd Chwarter, bu'n Llywydd Cyfundeb Môn, a dilynai weithrediadau'r Undeb.

Bu yn byw yn ei ardal enedigol ar hyd y blynyddoedd oni bai am ddwy flynedd o Wasanaeth Cenedlaethol. Priododd â Morfydd a magu tri o blant, a'r tri yn byw yn lleol ac yn gefn mawr iddo. Yn ddiweddarach daeth yn daid balch i naw o wyrion ac wyresau, ac 16 gor-ŵyr.

Gyda balchder derbyniodd ef a Morfydd y fedal Gee am eu gwasanaeth i'r eglwys, Morfydd yn organyddes ddeheuig ac yntau'n ddiacon. Rhoddodd y ddau oes o wasanaeth ac yn wir roedd y capel yn ganolbwynt eu bywydau.

Byddwn ni yn yr eglwys yn gweld bwlch enfawr o'i ôl. Ato ef byddem ni'r swyddogion presennol yn troi am gyngor. Rhoddai gyngor mesuredig a doeth yn ddi-ffael. Ond yn fwy na dim bydd y golled yn enfawr i'r teulu ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf atynt yn eu profedigaeth.

# 'Man, if you don't know, I could never tell you.'– *parhad*

### Mentro yn ein ffydd …

Mae Miles Davies yn siarad nid yn unig am gelfyddyd a cherddoriaeth, mae hefyd am fywyd. Dyma'r her i bawb ohonom, i ddefnyddio ein dychymyg, i fod yn greadigol yn ein ffydd, i fod yn fentrus drosti, ynddi ac o'i herwydd. Her i dorri tir newydd, i gamu y tu hwnt i'r hyn a wyddom, 'to play what we know and then play above that.'

### … a chanu

Mater o ganu'n ddifyfyr yw bywyd pob Cristion. Wynebwn bob math o sefyllfaoedd gwahanol a gofynion di-ben-draw ar ein hamser, egni ac amynedd; daw rhwystredigaethau a siomedigaethau; daw hwyl, llonydd a llawenydd. Ein nod yw meithrin yr ystwythder, hyblygrwydd a menter sydd ei angen i rannu cariad Crist yn effeithiol ag eraill, 'to play what we know and then play above that.'

**Owain Llŷr Evans**


# Dwi ddim yn cofio

Doedd o ddim yn cofio. Fwy nag unwaith yn ystod ei ymddangosiad gerbron y Farwnes Heather Hallett ac Ymchwiliad Covid-19, ateb Boris Johnson i gwestiynau Hugo Keith, cwnsler yr ymchwiliad, oedd nad oedd ganddo gof am yr union gyfarfod neu drafodaeth neu eiriau hynny. Gallwn gydymdeimlo â Mr Johnson o feddwl nad yw'n rhwydd cofio pob manylyn am bethau a ddigwyddodd bron i bedair blynedd yn ôl. Ond o gofio iddo, dros flwyddyn gyfan mae'n debyg, gael ei baratoi'n ofalus gan dîm o gyfreithwyr ar gyfer ei ymddangosiad gerbron yr ymchwiliad, mae'n anodd osgoi'r casgliad mai dyma'i ymateb parod i unrhyw gwestiwn nad oedd am ei ateb.

### Gerbron ei well?

Doedd Mr Johnson, wrth gwrs, ddim





gerbron llys nac yn cael ei erlyn mewn unrhyw fodd ddydd Mercher a dydd Iau; ac eto, roedd ei 'Dwi ddim yn cofio' yn fwy parchus a gweddus, ac yn llai cyhuddol a damniol na 'Dim sylw. *No comment*.' Ond pe fyddai o, neu unrhyw un arall o ran hynny, o flaen ei well, go brin y byddai'r ateb a roddodd mor fynych wedi gwneud lles iddo. Byddai'n anodd i reithgor na barnwr roi fawr o goel ar rywun a honnai nad oedd ganddo gof am unrhyw beth a allai adlewyrchu'n wael arno.

### Barnwr

Ond os nad oedd y cyn brif weinidog gerbron llys, daw dydd y bydd raid nid yn unig iddo fo ond i bawb ohonom ymddangos mewn llys uwch a gerbron barnwr mwy na'r un llys a barnwr daearol. Fel dywed Paul yn ei Lythyr Cyntaf at yr eglwys yng Nghorinth, 'Oherwydd rhaid i bawb ohonom ymddangos gerbron brawdle Crist, er mwyn i bob un dderbyn ei dâl yn ôl ei weithredoedd yn y corff, ai da ai drwg' (5:10). Mae'n sobri dyn i ddeall y bydd rhaid rhoi cyfrif ryw ddydd am y cyfan: pob meddwl; pob gair; pob gweithred. Thâl hi ddim i ddweud gerbron Duw'r Barnwr nad oes gennym gof am y meddwl anllad a'r gair anwir a'r weithred anghyfiawn. Os na fyddwn ni'n cofio, bydd Duw'n cofio. Ac ni fydd blwyddyn nac oes o baratoi ein hamddiffyniad, yn y gobaith o'n hesgusodi neu'n cyfiawnhau ein hunain, yn tycio dim.

### Newyddion da

Byddai deall hynny'n ein digalonni ac yn peri i ni anobeithio'n llwyr oni bai am yr Efengyl: y newydd da am y Gwaredwr a'r Eiriolwr y dathlwn ei ddyfodiad ar Ŵyl y Geni. Nid un sy'n ein hyfforddi i ateb yn ddoeth gerbron y Barnwr mohono ond yr un a fydd, ar sail ei fywyd a'i farwolaeth a'i atgyfodiad, yn ateb trosom am iddo fynd yn gyfrifol am ein beiau a dwyn y gosb yn ein lle.

John Pritchard
(allan o *Llais Bro Aled* 10 Rhagfyr 2023

# Golygyddol

## Baban

Mae'r Nadolig yn ŵyl ryfedd o ran y gwrthgyferbyniadau sy'n perthyn iddi. Mae'n llawn o'r materol a'r ysbrydol, y tragwyddol a'r meidrol, goleuni a thywyllwch, rhialtwch bas a llawenydd dwfn. Yn y golygyddol hwn rwyf am ddilyn un edefyn ym mrodwaith goludog hanes geni ein Gwaredwr Iesu.



### Syfrdanol

Yr hyn sy'n amlwg syfrdanol yn hanes gwyrthiol y Geni yw bod Duw wedi dod i'n plith yn Iesu,

> Daeth y Gair yn berson o gig a gwaed;
> daeth i fyw yn ein plith ni.
> Gwelon ni ei ysblander dwyfol –
> ei ysblander fel Mab unigryw
> wedi dod oddi wrth y Tad
> yn llawn haelioni a gwirionedd.
>
> Ioan 1:14 beibl.net

Syfrdan ar ben syfrdan yw bod Duw yn Iesu wedi gwneud ei hun yn fregus er mwyn gwasanaethu ac achub ei gread a'i greaduriaid anufudd. Daeth Duw i'r byd nid fel cryf arfog nid fel ymerawdwr ymerodraeth bwerus ond mewn baban bach diamddiffyn a aned i deulu cyffredin mewn ardal ddinod o'r galaethau maith. O'r dechrau cychwyn mae Duw yn dangos natur ac egwyddorion ei deyrnas. Y mae ei gariad ef yn gariad aberthol, y mae ei ras ef yn afresymol, y mae ei rym ef yn rym gostyngedig ac y mae ei Deyrnas Ef yn goresgyn trwy wasanaethu.

Safwn yn gegrwth gyda'n hemynwr wrth fyfyrio ar arwyddocâd hyn:

> Rhyfedd, rhyfedd gan angylion,
> rhyfeddod mawr yng ngolwg ffydd,
> gweld Rhoddwr bod, Cynhaliwr helaeth
> a Rheolwr popeth sydd
> yn y preseb mewn cadachau
> a heb le i roi'i ben i lawr,
> eto disglair lu'r gogoniant
> yn ei addoli'n Arglwydd mawr.
>
> Ann Griffiths

### Crëwr yn crio mewn cadach

Am bwl, baban bach bregus oedd Arglwydd yr Arglwyddi a chyfrifoldeb ei rieni meidrol oedd gofalu am, bwydo, newid, diodi a chadw y Duwddyn yn gynnes. Bygythiwyd ei lofruddio'n giaidd gan Herod yn ei drachwant am rym. Llofruddiwyd bechgyn bach eraill. O ganlyniad bu rhaid i'r teulu ffoi i'r Aifft er diogelwch. Ac oherwydd eu gofal o'r baban mewn byd peryglus fe dyfodd Iesu yn oedolyn i'n dysgu fel dynoliaeth am Dduw a'i deyrnas. Dysgodd ni mai grym yw gwasanaethu nid gwendid, cryfder yw maddau a thrugarhau a'i fod yn disgwyl i'w bobl Ef garu eraill yn aberthol. Onid dyna wnaeth ar y groes, rhoi ei hun o'i wirfodd er mwyn ein cadw a'n cymodi gyda Duw?

### Babanod a phlant

Mae hanes y Geni yn dangos pa mor werthfawr yw babanod a phlant yng ngolwg Duw? O ganlyniad cyfrifoldeb pob cymdeithas wâr yw eu caru, eu hamddiffyn, eu diogelu a'u meithrin.

Un o'r arwyddion amlycaf fod cymdeithas wedi colli ei ffordd yw pan fo babanod a phlant yn dioddef. Trosedd uffernol ydy bod y diniwed a'r bregus hyn yn cael eu hamharchu'n greulon. Gwelwn hyn heddiw ar strydoedd Gasa ac Israel, dywed Cronfa Achub y Plant fod 3,195 wedi eu lladd yn Gasa mewn cyfnod o dair wythnos ym mis Hydref eleni. www.savethechildren.net/news/gaza-3195

Ar ben hynny nid yw Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn ymdrin ag ymgeiswyr lloches mewn ffordd ddyngarol. Cywilydd ar y bobl hynny sy'n credu bod aberthu plant ar allor gwleidyddiaeth yn dderbyniol mewn unrhyw wrthdaro na pholisi. A dewch yn nes adref, onid testun cywilydd mawr i bawb ohonom yng Nghymru yw bod cymaint o blant ba ch yn dioddef o dlodi? Mae angen i ni godi ein llais yn erbyn hyn oherwydd nid oes gan blant lais eu hunain. (Gellir gweld ystadegau UNICEF ar dlodi plant ar eu gwefan: https://www.unicef.org/globalinsight/reports/report-card-18-child-poverty-amidst-wealth#report)

### Bod yn llais

Sut allwn ni fel eglwysi fynd i'r afael â hyn gan fod yn llais i fabanod a phlant yn fyd-eang ac yn lleol? Dylem weithredu i ddileu tlodi plant yma yng Nghymru fel bod y rhai bychan hyn yn cael yr hyn maent ei angen i fod yn ddiogel ac i dyfu'n gryf ac yn iach.

> Yr amser hwnnw daeth y disgyblion at Iesu a gofyn, 'Pwy sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd?' Galwodd Iesu blentyn ato, a'i osod yn eu canol hwy, a dywedodd, 'Yn wir, rwy'n dweud wrthych, heb gymryd eich troi a dod fel plant, nid ewch fyth i mewn i deyrnas nefoedd. Pwy bynnag, felly, fydd yn ei ddarostwng ei hun i fod fel y plentyn hwn, dyma'r un sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd. A phwy bynnag sy'n derbyn un plentyn fel hwn yn fy enw i, y mae'n fy nerbyn i. Ond pwy bynnag sy'n achos cwymp i un o'r rhai bychain hyn sy'n credu ynof fi, byddai'n well iddo pe crogid maen melin mawr am ei wddf a'i foddi yn eigion y môr.'
>
> (Math. 18:1–6)

Fel baban y daeth Duw i'n plith ac y mae i hynny arwyddocâd pellgyrhaeddol.

**Alun Tudur**

O.N. Hoffwn ddymuno pob bendith i chi dros ŵyl y geni gwyrthiol a blwyddyn newydd dda i bawb ohonoch. Mae fy nghyfnod Sabothol wedi dirwyn i ben a byddaf yn ail-afael yn y gwaith gyda'r Tyst gyda rhifyn cyntaf 2024. Hoffwn ddiolch o galon i'r tîm gweithgar sydd wedi bod wrthi ers mis Medi yn sicrhau fod *Y Tyst* yn ymddangos yn wythnosol sef Alun Lenny, Owain Llŷr, Iwan Llewelyn Jones a Gwennan Evans. Ond mae fy niolch pennaf i Elinor Wyn Reynolds sydd wedi cario pen trymaf y baich trwy'r misoedd a chadw trefn ardderchog ar y cwbl.


**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**

Hysbyseb Swydd

**Ysgrifennydd Gweinyddol**
Llawn-amser 37.5awr yr wythnos

Chwilio am her? Awydd newid gyrfa?

Dyma gyfle cyffrous i berthyn i dîm blaengar sy'n gweinyddu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Ydych yn meddu ar y sgiliau i reoli cyllid a chynnig arweiniad i'r Undeb ar faterion ariannol a statudol?

Oes gennych y ddawn i ddatblygu perthynas gydag eglwysi ar faterion yn ymwneud â'u cyllid, statws elusennol a chyfrifoldebau statudol?

Os felly, rydym yn awyddus i glywed gennych.

I gael pecyn gwybodaeth ymgeiswyr neu am sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd, cysylltwch â'r
Ysgrifennydd Cyffredinol,
Tŷ John Penri,
5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon,
Bro Abertawe, ABERTAWE. SA7 0AJ

Ffôn: 01792-795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

**Dyddiad cau: 8 Ionawr 2024**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Pawb a'i Nadolig – parhad

## Oedfa Nadolig plant Cana, BancyFelin



*Criw plant Cana Bancyfelin yn rhannu neges y Nadolig*

## Saron, Creunant



Roedd grŵp crefft Saron yn hynod o brysur yn creu torchau Nadolig eleni er mwyn dathlu'r Nadolig yn y festri. Am syniad hyfryd er mwyn dod â phobl yr eglwys, ac eraill, ynghyd.

# Gweddi ar gyfer Nadolig 2023

**Arweinydd: Heddiw,** deuwn at ein gilydd i gofio am y geni rhyfeddol canrifoedd yn ôl.

**Cynulleidfa: Heddiw,** mae baban Bethlehem,

plentyn y preseb hwnnw yn blentyn i'r bydysawd.

**Arweinydd: Heddiw**, boed i ni roi genedigaeth rasol i'r gwerthoedd a'r gwirionedd gwelwyd mewn gweithredoedd ac a glywyd mewn geiriau gan Y Gair gwrthodedig, croeshoeliedig, fu'n gwaedu gyda gweddi ar y groes, 'O Dad, maddau iddynt …'

**Cynulleidfa: Heddiw,** Iesu, cofiwn a chofleidiwn gariad y baban brenhinol bu mewn cadachau mewn preseb ym Methlehem drws caeedig a digroeso.

**Arweinydd: Heddiw,** cynorthwya ni rhag gorlenwi ein bywydau gorbrysur, fel nad oes lle nac amser i chdi yn ein cartrefi na'n calonnau na'n cynlluniau cul.

**Cynulleidfa:** Wrth gofio'r stabl a'r preseb gynt, cadw ni rhag ymgolli yn ein dyhead hunanol am gysuron a hawddfyd na chefaist ti mohonynt, ond boed i ni gofio a chofleidio tlodion anghenus y blaned hon, y newynog, y digartref, y di-waith, y diymgeledd, y dideulu a'r diobaith.

**Arweinydd:** Cofiwn am y miloedd, onid y miliynau, sy'n byw mewn ofn ac ansicrwydd oherwydd casineb a chreulondeb annynol mewn rhyfeloedd niferus yn ein byd heddiw.

**Cynulleidfa: Heddiw,** yng nghyfnod yr Adfent, boed adferiad i'r parch hanfodol tuag at ein gilydd fel aelodau o'r hil ddynol er gwaethaf y gwahaniaethau rhyngom o ran lliw croen, cenedl, crefydd, iaith, traddodiad a diwylliant.

**Arweinydd: Heddiw,** boed i ni chwilio yn ddyfal am seren ddisglair i'n goleuo a'n gwefrio i adnewyddu ein gobaith am gyd-ddealltwriaeth a chyd-gynllunio ymhlith pobloedd ein planed i ail-adfer heddwch a harmoni tangnefeddus.

**Cynulleidfa:** Llewyrcha dy oleuni ar ein byd cythryblus a'n bywyd dryslyd, er mwyn i lawenydd ledaenu i dywyllwch dudew pob cenedl a chornel o'n byd , a meddalu pob calon galed i ymagweddu a gweithredu mewn parch a thiriondeb tuag at ein gilydd.

**Arweinydd: Heddiw,** boed i ni ganfod gweledigaeth newydd ar gyfer byd rhwygedig. Boed i ni gyd-drafod i chwilio, chwennych a dyheu am ddyfodol mwy disglair a diogel er lles a budd pawb a phob un.

**Cynulleidfa:** Rho i ni gymhelliad cryfach i garu ein cymydog fel ni ein hunain fel rydym ninnau wedi ein caru a byddwn yn cael ein caru hyd ddiwedd amser gan ein Tad trugarog a thragwyddol.

**Amen.**

**Gwilym Wyn Roberts**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*